

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Rhagfyr, 2021 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.**

Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r holl weithdrefnau a phrotocolau isod ar waith.

- Gosod cadeiriau a chynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Gwisgo masg trwy gydol y cyfarfod.
- Darparwyd hylif dwylo
- Cadwyd drysau a ffenestri ar agor.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Gerwyn Owen (Cadeirydd) Lynford Thomas, Harry Williams,,Haf Hughes Alan Henson, Glyn Davies, Hywel Ifans

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cynghorwyr Lyn Williams, Owen Llywelyn

**2. PERSONOL**

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL**

- i. Cais 210928 Maesgolau Temple Bar. Y Cyng. Haf Hughes
- ii. Ceisiadau ariannol. Penderfynwyd eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion 9fed Tachwedd, 2021. Cynigiwyd gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y cyng. Hywel Ifans.

**5.. MATERION YN CODI**

**5.ii. Cyfrifiadur.** Y cyfrifiadur wedi ei dderbyn a bcclT wedi llwytho y rhaglenni a'r e-bost.

8 vi **Gweithgor Dyffryn Aeron.** Dim ymateb gan y Llwyodraeth felly bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Cyngor pan ddaw yr ymateb hwnnw.

**6. CYLLID**

- I. **Tâl y Clerc Mis Tachwedd.** £199.41
- II. **Datganiad Ariannol.** Dosbarthwyd datganiad ariannol yn dangos y gwariant a'r trosglwyddiadau a wnaed er mwyn ariannu'r prosiectau a phryniannau diweddar. Yn dilyn trafodaeth am y datganiad, penderfynwyd ei dderbyn ac i wneud cais am Praespet o £9,950.00 ar gyfer 2022-23.

7. **CYNLLUNIO**

- I. **Maesgolau Temple Bar.** Cadarnhawyd bod y sylwadau canlynol a gytunwyd arnynt wedi eu cyflwyno trwy system gofnodi'r Cyngor Sir ac y derbyniwyd cadarnhad o'u derbyniad. Ymateb Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad. Gwrthwynebir y cais hwn ar sail y canlynol:-

**Mynediad i'r Safle.** Mae gwelededd dan fygythiad yn ddifrifol yn y lleoliad hwn. Mae'r darn hwn o'r A482 yn hynod o beryglus oherwydd maint a chyflymder y traffig ac ystyrir bod ychwanegu mynedfa yn berygl ychwanegol i ddiogelwch gyrrwyr.

**Gorchymyn Cadwraeth Coed.** Ar y 13eg o Fedi, 2021 gwnaed *Gorchymyn Cadwraeth Coed* ar ddwy goeden ar dir yn agos i'r Safle. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau na fyddai unrhyw waith adeiladu trwm yn niweddiol i'r Gorchymyn cyfreithiol hwn.

**Ymgynghori.** Mae anghysondeb ynglyn a'r ffaith a ymgynghorwyd â chymdogion yn unol â gofynion cynllunio lleol. Gofynnir am eglurhad.

**Prinder manylion.** Gan fod y manylion ynglyn a'r math o adeilad yn brin mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau addasrwydd y safle o ran cynnal gwasanaethau dŵr a charffosiaeth.

8. **ADRODDIAD CYFARFOD GYDA'R CYNGOR SIR 22/11/21**

Cyfarfod dros y we: yn bresennol Y Cyng. Gerwyn Owen, Owen Llywelyn a Lynford Thomas. Trafodwyd nifer o faterion yn cynnwys: y sialensau o ddelio â Covid; rôl ganmoladwy athrawon wrth gadw drysau'r ysgolion ar agor; pryder am y cyflwr dementia yn y Sir; y sefyllfa dai fforddiadwy i bobol ifanc; gostwng cyflymder traffig I 20mya; sefyllfa yn ogystal â phynciau megis sbwriel, torri coed a pharcio'n anghyfreithlon. Cyhoeddwyd y bydd arian Ewrop yn dod i ben yn 2023 a bod y Sir yn anelu at fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

9. **GOHEBIAETH** – Dim wedi dod i law.

10. **UNRHYW FATER ARALL**

i. **Newid enwau lleoedd.** Yn dilyn adroddiadau yn y wasg am y bwriad i newid enwau lleoedd – ac yn benodol Ystrad Aeron a Felinfach – **penderfynwyd** trafod y mater yn y cyfarfod hwn fel nad oedd oedi cyn cyflwyno'r sylwadau.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cysylltu â'r Sir i ddatgan gwrthwynebiad ac i ofyn am drafodaeth bellach yn lleol cyn gwneud penderfyniad terfynol yn seiliedig ar y farn gyffredin a chost unrhyw newidiadau o ystyried y toriadau sydd eisoes yn digwydd yn y gymuned oherwydd cwtogi ar gyllideb.

ii. **Problem pyllau dŵr.** Gyda glaw mawr, mae dŵr yn crynhoi ger bwythyn Soar, Dihewyd hyd at lle mae'r lôn o Towerhill yn uno gyda'r B4342. Golyga hyn bod teithwyr sy'n dod o gyfeiriad Mydroilyn ddim yn gweld y dŵr tan yr eiliad olaf oherwydd y gornel. Penderfynwyd cysylltu â'r Sir i wneud cais i glirio'r gwteri ar frys er mwyn sicrhau nad yw hyn digwydd y tro nesa' y bydd glaw mawr a chyn bod rhywun yn cael damwain.

11. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF** – 8/2/2022 Neuadd Felinfach

## **Ymweliad gan Charlotte Court, PCSO.**

Yn dilyn y cyfarfod cafwyd ymweliad gan y PCSO lleol Charlotte Court a'r PCSO dan hyfforddiant. Trefnwyd yr ymweliad yn sgil y llythyr a anfonwyd at Gomisiynydd yr Heddlu yn lleisio pryderon y Cyngor am y defnydd cynyddol ac amlwg o gyffuriau yn lleol. Esboniodd y PCSO bod yr Heddlu yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth gan y cyhoedd a bod unrhyw wybodaeth sy'n dod i law yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Bu cyfle hefyd i drafod y pryder am gyflymder traffig ar hyd y A482 a chyfeiriwyd y cyfarfod at wefan o'r enw Crash Maps UK sydd yn nodi nifer y damweiniau ar bob hewl yn y DU ac fe'i hanogodd y Cyngorwyr i ddefnyddio'r data ar y wefan i atgyfnerthu eu neges i'r Cyngor Sir os am newid terfynau cyflymder.

## **GWOBR Y GYMUNED 2021**

Derbyniwyd 5 enwebiad am y wobwr. Pleser yw cyhoeddi mai Eluned Davies, Bryniau, Dihewyd yw'r enillydd cyntaf oll.

Dyma rai o'r pethau y mae Eluned ynghlwm â nhw:

- Capel Bethlehem – Organyddes m 62 o flynyddoedd ac Ysgrifennydd yr Ysgol Sul a'r Capel am 27 o flynyddoedd.
- Cyn-lywodraethwriag Ysgol Dihewyd
- Aelod o Bwyllgor Neuadd y Pentre'
- Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Dihewyd
- Trysorydd y W.I ac Ysgrifennydd y Sir
- Yn grefftwraig ddawnus sydd nid yn unig wedi ennill mewn sioeau gan gynnwys y Sioe Frenhinol ond yn barod iawn i rannu'r ddawn a dysgu erall mewn dosbarthiadau gwnio a chreffft.

Er bod y blynyddoedd lawer o wasanaeth yn glod yn ei hunan teimlad y panel dewis oedd bod yr ystod eang o fudiadau mae Eluned wedi cefnogi a thrwy hynny sicrhau parhad y gweithgareddau hyn i eraill gael eu mwynhau ac elwa wrthynt yn bwysig i gofnodi.

